

RHYBUDD O WNEUD

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT CROSS STREET, STRYD FAWR, PANTON PLACE A WELL STREET, TREFFYNNON (PARTH TERFYN CYFLYMDER 20MYA) 2019

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd trwy hyn bod wedi gwneud Gorchymyn ar 12 Tachwedd 2019 dan Adran 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a phob pŵer galluogi arall, a'i effaith fydd:

Gosod terfyn cyflymder 20 mya ar y darnau o ffordd a nodir yn yr Atodlenni i'r hysbysiad hwn.

Gellir archwilio copi o'r Rhybudd hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 15 Tachwedd 2019, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gwneud y Gorchymyn yn ystod oriau swyddfa arferol Treffynnon yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD ac yn Cyngor Sir y Fflint, Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint CH7 6LG yn ystod oriau swyddfa. Bydd y dogfennau hefyd ar gael i'w gweld yma www.siryfflint.gov.uk.

ATODLEN

Parth Terfyn Cyflymder 20mya

Cross Street, Treffynnon:	Am ei hyd cyfan.
Stryd Fawr, Treffynnon:	Am ei hyd cyfan.
Panton Place, Treffynnon:	O'i gyffordd â'r Stryd Fawr am bellter o 31 metr tua'r de Orllewin.
Well Street, Treffynnon:	O'i chyffordd â'r Stryd Fawr i'r A5026, am bellter o 31 metr i gyfeiriad y gogledd



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF

Dyddiedig y 15 dydd o Tachwedd 2019

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
CROSS STREET, STRYD FAWR, PANTON PLACE A WELL STREET,
TREFFYNNON
(PARTH TERFYN CYFLYMDER 20MYA) 2019**

GORCHYMYN

fel y nodir oddi mewn



**Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
CROSS STREET, STRYD FAWR, PANTON PLACE A WELL STREET,
TREFFYNNON
(PARTH TERFYN CYFLYMDER 20MYA) 2019**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob pŵer arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn
2. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 20 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.
3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.
4. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Tachwedd 2019 ac fe'i hadnabyddir fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Cross Street, Well Street, Panton Place and Stryd Fawr, Treffynnon) (Parth Terfyn Cyflymder 20mya) Gorchymyn 2019.

**ATODLEN
Parth Terfyn Cyflymder 20mya**

Cross Street, Treffynnon:	Am ei hyd cyfan.
Stryd Fawr, Treffynnon:	Am ei hyd cyfan.
Panton Place, Treffynnon:	O'i gyffordd â'r Stryd Fawr am bellter o 31 metr tua'r de Orllewin.
Well Street, Treffynnon:	O'i chyffordd â'r Stryd Fawr i'r A5026, am bellter o 31 metr i gyfeiriad y gogledd

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN SIR Y FFLINT
ar y 12
diwrnod o Tachwedd 2019 ym mhresenoldeb :-

Y CADEIRYDD *Marion Bateman*
STO
RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL



**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
CROSS STREET, STRYD FAWR, PANTON PLACE A WELL STREET, TREFFYNNON
(PARTH TERFYN CYFLYMDER 20MYA) 201-**

Datganiad o Resymau dros Argymell Gwneud y Gorchymyn

Effeithiau'r Gorchymyn yw caniatáu integreiddiad diogel cerbydau, cerddwyr a defnyddwyr ffordd bregus, wrth letya symudiadau beicwyr yn unol â'r canllaw Teithio Llesol.



Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darparu symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd diamddiffyn ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.




Stephen Jones,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF

Dyddiedig y 11th diwrnod o Hydref 2019



KEY

 Terfyn Cyflywder
 20mya.
 20mph Speed Limit
 Zone

Steve Jones
 Chief Officer (Streetscene and Transportation),
 Pŵl Swyddog (Gwasanethau Stryda Thrailliaeth),
 Flintshire County Council
 County Hall, Mold, CH7 6NF
 Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF



Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of
 Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
 © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and
 may lead to prosecution or civil proceedings.
 Licence number: 1000233865, Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW
 CHECKED BY: JB
 SCALE: 1: NTS @ A3
 NAT. GRID REF: 318489 375913

AMENDMENTS:	CONSTRUCTION	DATE

High Street, Well Street, Cross Street and
 Panton Place
HOLYWELL
 20 mph Zone
 (Sheet 1 of 1)
 DRAWING NUMBER
HT/19/HSS 101 C1